

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.C. Bird, B.E. Brooks, C.A. Cave, S.M. Hanks, R. Nugent-Finn, A.C. Parker, S.D. Perkes a L.O. Rowlands

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau); W. Hennessy, V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr Gweithgorau / Panel Tenantiaid) ac C. Ireland (Cyngor Dinasyddion Caerdydd a Chynrychiolydd y Fro).

678 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

679 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y G. Doyle (Cynrychiolwyr Gweithgorau / Panel Tenantiaid).

680 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

681 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

682 CYFLWYNIADAU – DIWEDDARIAD YR UNED AMDDIFFYN SIFIL (UAS) –

Rhodddwyd y cyflwyniad gan y Prif Swyddog Diogelu Sifil. Eglurodd fod hwn yn ddiweddariad ar yr hyn yr oedd yr Uned Diogelu Sifil (UDS) wedi bod yn ei wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn rhan o'i gwaith rheolaidd ac ar y camau a gymerwyd yn rhan o'r ymateb i COVID-19.

O ran cefndir, roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 fel ymatebydd categori un a dan y ddeddf honno roedd chwe dyletswydd h.y. asesu'r risg o argyfyngau, cynllunio ar gyfer argyfyngau a pharhad busnes, hyfforddiant ac ymarfer gyda phartneriaid, ymateb i argyfyngau, yn ogystal â chydweithredu a rhannu, a gynhaliwyd drwy'r UDS.

Un her allweddol i'r UDS fu ymateb i COVID-19 gyda'r UDS yn ymgymryd â chamau gweithredu amrywiol, gan gynnwys y canlynol:

- Defnyddio Rhestr y Cyngor o Wasanaethau Hanfodol er Parhad Busnes er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau; er bod y sefyllfa'n anodd i ddechrau oherwydd natur annisgwyl yr argyfwng hwn, roedd y fframwaith gwasanaethau hanfodol hwn wedi profi'n effeithiol ers hynny wrth bennu blaenoriaethau a chynnal gwasanaethau allweddol y Cyngor yn ystod y pandemig.
- Hefyd, effeithiwyd yn sylweddol ar seilwaith TGCh y Cyngor gan effeithiau COVID-19 (h.y. nifer fawr o staff yn gweithio gartref) ond llwyddodd y Cyngor i ymateb i'r her a gwella ei alluoedd TGCh wrth wneud mwy o'i fusnes yn rhithwir gan sicrhau parhad busnes a chefnogaeth barhaus i'r gymuned.
- Roedd y Cyngor wedi cynnal cyfarfodydd 'Aur' rheolaidd (gan gynnwys Uwch Dîm Arwain, Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor) er mwyn cydlynu ymateb y Cyngor i COVID-19.
- Sefydlwyd storfa cyfarpar diogelwch personol (CDP) yn y Cyngor er mwyn cefnogi'r sector gofal cymdeithasol i sicrhau y gallai barhau â'i waith hanfodol a hefyd i sicrhau y gallai gwasanaethau'r Cyngor, fel gwastraff, barhau mewn amgylchedd diogel er mwyn i wasanaethau cyhoeddus allweddol barhau yn ystod y pandemig.
- Cefnogi Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro h.y. drwy ei ganolfannau brechu yn ogystal â chynorthwyo Llywodraeth Cymru (LIC) i roi parseli bwyd a helpu'r Tîm Diogelwch Cymunedol a'r Tîm Gorfodi ar y Cyd i ddelio â lleoedd lle cafwyd llawer o achosion o dorri cyfyngiadau COVID-19, fel Ynys y Barri ac Aberogwr. Hefyd rhoddodd yr UDS gymorth o ran gwella'r diogelwch a'r glanhau yn adeiladau'r Cyngor ac o ran cefnogi ysgolion a llyfrgelloedd.
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y De: fforwm rheolaidd ar gyfer ymatebwyr Categori Un a phartneriaid a gynhelir ac a gydlynir gan y Cyngor er mwyn sicrhau cymorth amlasiantaethol, gan gynnwys cymorth gan LIC a'r Fyddin fel cymorth gyda safleoedd profi / brechu COVID-19 a rheoli marwolaethau ychwanegol.

Er ei bod yn rhan o'r gwaith sy'n ymwneud â'r pandemig, roedd yr UDS hefyd wedi parhau â'i gwaith rheolaidd, gan gynnwys adolygu'n barhaus ei chynlluniau brys fel Trefniadau Tanwydd Brys, Cynllun Allanol Cyfadeilad Cemegol y Barri – Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, Cyfeiriadur Cysylltiadau Brys, Trefniadau Eira a Chynllun Llifogydd yn ogystal â Threfniadau Ceffylau Strae a Da Byw. Roedd angen defnyddio rhai o'r cynlluniau hyn yn ddiweddar ar gyfer llifogydd y llynedd yn y Fro oherwydd glaw trwm a'r 'panig tanwydd' mwy diweddar. Roedd swyddog ar ddyletswydd yr UDS ar alwad 24/7, drwy gydol y flwyddyn er mwyn ymateb i unrhyw alwadau gan y gwasanaethau brys neu gan y Cyngor. Roedd y Cyngor hefyd wedi delio â chael gwared ar gychod yn hen Harbwr y Barri oherwydd materion amrywiol

gyda'r rhain (gan gynnwys llygredd a'r posibilrwydd o'r cychod yn torri'n rhydd o'u hangorfeydd). Cydlynodd yr UDS y gwaith hwn.

Cadeiriodd yr UDS y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau (GCDdD) a'r Grwpiau Parodrwydd Diogelwch Amddiffynnol (GPDA) ac mae'n aelod o Fwrdd CONTEST Caerdydd a'r Fro, gan ddelio â gwaith rheoli digwyddiadau drwy ymagwedd sy'n gyson ac ymdrin â dyletswyddau newydd y Cyngor o ran gwrthderfysgaeth, yn y drefn honno.

Yn olaf, roedd yr UDS wedi cynhyrchu canllawiau newydd yn ddiweddar er mwyn adeiladu gwydnwch cymunedol o ran tywydd eithafol yn ogystal â chanllawiau ar ddefnyddio Hen Harbwr y Barri ac adleoli stoc y Cyngor o fagiau tywod o Court Road i Swyddfeydd Dociau'r Cyngor.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, gwnaeth y Pwyllgor ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau:

- Roedd y Cadeirydd am fynd i'r afael â'r sylwadau a wnaed ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch symud y cychod yn yr Hen Harbwr yn y Barri a pha weithdrefnau a ddilynodd y Cyngor yn rhan o'r broses o symud y rhain. Esboniwyd bod y cychod wedi bod yn yr harbwr ers peth amser ac roedd y Cyngor wedi ceisio adnabod eu perchnogion ac ysgrifennu atynt. Yn y cyfamser, roedd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (AMGG) wedi cysylltu â'r Cyngor ynglŷn â'u pryderon o ran y cychod yn achosi llygredd, yn torri'n rhydd ac yn tarfu ar yrwyr cychod eraill ym Môr Hafren. Byddai'r Cyngor fel Awdurdod yr Harbwr wedi bod yn gyfrifol pe bai hynny wedi digwydd. O ganlyniad, roedd y Cyngor wedi cymryd camau cyfreithiol yn erbyn perchnogion y cychod, gan arwain at bowndio a symud y cychod.
- O ran cwestiwn y Cynghorydd Nugent-Finn ynghylch sut y gellid lliniaru ac osgoi'r materion a godwyd ynghylch cychod yn yr Hen Harbwr yn y dyfodol, roedd yr UDS wedi ysgrifennu gweithdrefn newydd i fynd ar wefan y Cyngor yn fuan, gan ddweud nad oedd Hen Harbwr y Barri yn harbwr gweithredol a bod mesurau gorfodi cyflym ar waith pe bai pobl yn ceisio hwylio eu cychod o fewn yr Harbwr heb ganiatâd. Yn rhan o hyn, byddai'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r Harbwr yn cael ei hadolygu yn y tymor canolig a'r tymor hwy hefyd.
- Ar ôl y cwestiwn hwn, gofynnodd y Cynghorydd hefyd am y ffordd orau o gyfeirio'r cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor ynghylch bagiau tywod yn achos llifogydd gan beidio â'u cyfeirio at wefan y Cyngor yn unig, a'r ateb oedd, pan fyddai'r weithdrefn newydd yma ar waith, byddai'r UDS / Cyngor yn monitro'r tywydd a phe byddai perygl o lifogydd yn cael ei nodi yna byddai hyn yn sbarduno'r cyflenwad canolog o fagiau tywod i gael ei agor (gyda 15 o fagiau tywod ar y mwyaf yn cael eu dyrannu i bob tŷ). Byddai manylion cyflenwyr bagiau tywod preifat hefyd yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor pe bai'r cyhoedd yn dymuno prynu'r rhain eu hunain. Byddai dolen i'r weithdrefn newydd yn cael ei rhannu ag Aelodau ar ôl iddi gael ei chwblhau.
- Cododd y Cynghorydd Cave fater llifogydd a dwedodd fod ychydig o fannau yn y Fro wledig lle'r oedd bagiau tywod bellach ar gael yn rhwydd. Cyfeiriodd hefyd at y problemau llifogydd parhaus a achosir gan ddŵr ffo ar gaeau mewn ardaloedd gwledig sy'n effeithio ar dai a ffyrdd / lonydd lleol a gofynnodd a

oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r UDS roi gwybodaeth amdano. Roedd cyfathrebu blaenorol â'r Awdurdod Prifffyrdd wedi bod yn aflwyddiannus wrth ddatrys y mater hwn. Dwedodd y Prif Swyddog Diogelu Sifil y byddai angen iddi gyfeirio hyn at y Tîm Risg Llifogydd yn y Cyngor i weld pa fesurau atal llifogydd y gellid eu rhoi ar waith ac i nodi hyn yn 'ardal a gaiff broblemau llifogydd' o bosibl, ond awgrymodd hefyd y gallai'r Canllawiau Cymunedol a ddrafftiwyd yn ddiweddar gan yr UDS helpu cymunedau gwledig lleol hefyd o ran materion llifogydd ac i greu mwy o wydnwch yn hyn o beth. Eglurodd ei bod yn heriol rheoli llifogydd yn y Fro gan y gallent ddigwydd yn unrhyw le ar unrhyw adeg, yn enwedig gyda glaw trwm a llifogydd sydyn. Awgrymodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Bird hefyd gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ogystal â'r tiffeddiannwr a allai hefyd helpu i ddatrys y mater hwn yn gynt.

- Cododd y Cynghorydd Brooks y mater o'r nifer cynyddol o achosion o COVID-19 gyda'r amrywiolyn Omicron a dwedodd fod angen gwneud mwy o baratodau eto. O ganlyniad, sut fyddai'r UDS yn ymdopi â hyn, gyda llai o staff ar gael o bosibl yn ystod y cyfnod gwyliau sydd i ddod. Esboniwyd y byddai lefelau staff yn cael eu cynnal dros gyfnod y Nadolig ar gyfer gwasanaethau hanfodol y Cyngor ac roedd cynlluniau ar waith i sicrhau gwydnwch parhaus staff mewn gwasanaethau allweddol yng ngoleuni amrywiolyn Omicron COVID-19. Yn fwy cyffredinol, gallai Llywodraeth Cymru roi cyfyngiadau a chanllawiau pellach ar waith hefyd i ddelio â'r achosion COVID-19 newydd. Ar gyfer Gwasanaethau Tai ac Adeiladau, parhawyd i wneud asesiadau risg (ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru) yng ngoleuni'r amrywiolyn newydd cynyddol i sicrhau bod adeiladau a mannau cyhoeddus yn ogystal â llety tai gwarchod yn parhau'n ddiogel a phe bai angen, byddai cyfyngiadau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch parhaus y cyhoedd.
- Gofynnodd y Cynghorydd Hanks am eglurder ynghylch Cynllun Llifogydd a Threfniadau Eira'r Fro y cyfeiriwyd atynt ar wahân ar y cyflwyniad, gyda'r Canllawiau Llifogydd a Thywydd Eithafol Cymunedol hefyd yn cael eu crybwyll gan ofyn o dan ba rai o'r rhain yr oedd y Cyngor yn gweithio. Esboniwyd bod y Cynllun Llifogydd a Thywydd Eithafol Cymunedol yn ddogfen gyhoeddus a bod Cynllun Llifogydd a Threfniadau Eira'r Fro yn ddogfennau mewnol a oedd yn ymdrin ag ymateb y Cyngor i bob math o dywydd eithafol.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD – NODI'R cyflwyniad o ran y Diweddariad ar yr Uned Diogelu Sifil (UDS).

Rheswm dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

683 CYFLWYNIADAU – ADDASIADAU CYFLEUSTERAU ANABL –

Rhodddwyd y cyflwyniad gan y Rheolwr Gweithredol, Adfywio ac eglurodd, o ran cefndir, fod y Tîm Cyfleusterau Pobl Anabl yn rhan o Dîm Economi'r Cyngor. Mae

wedi bod yn rhan o'r gwasanaeth hwn er 2012 ac roedd yn un o dri thîm addasu o fewn y Cyngor. Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ystyried a chymeradwyo ceisiadau (gan berchen-feddianwyr, landlordiaid a thenantiaid preifat) am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) lle nodwyd angen a lle y gellid addasu eiddo'n rhesymol – y meini prawf allweddol oedd bod addasiadau o'r fath yn 'rhesymol ac yn ymarferol'. Y terfyn statudol (Iedled Cymru) oedd £36,000, gyda'r Fro yn cynnig grant ychwanegol dewisol hyd at uchafswm o £60,000. Roedd y Fro yn cynnig gwasanaeth Asiantaeth Grantiau sy'n rheoli addasiadau ar ran trigolion, am ffi ganrannol sefydlog.

Roedd yn bwysig rheoli disgwyliadau trigolion ynghylch addasiadau y gallai fod eu hangen arnynt yn eu cartrefi er mwyn sicrhau bod addasiadau'n ymarferol ac yn rhesymol, o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol. Roedd addasiadau canolig a mawr hefyd yn seiliedig ar brawf modd.

O ran perfformiad, dyfarnwyd 56 o grantiau yn 2020 / 2021, gan gymryd 340 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i gwblhau addasiadau o'r fath (yn erbyn targed o 350 diwrnod) yn Chwarter 2. Amcangyfrifwyd y byddai rhwng 65 a 75% o'r dyraniad cyfalaf ar gyfer GCA yn cael ei ddefnyddio yn 2021 / 2022. Roedd y gwasanaeth 'Gofal a Thrwsio' (a ariennir gan grantiau amrywiol) hefyd yn darparu gwasanaeth rhagorol wrth gyflawni addasiadau amrywiol ar raddfa fach.

Aeth y Rheolwr Gweithredol, Adfywio ymlaen i drafod yr heriau yn ystod COVID-19 ac ar ei ôl; roedd hyn yn cynnwys staff a chontractwyr yn methu â mynd i gartrefi trigolion ac felly'n cael eu dargyfeirio i gymorth busnes brys (er bod rhai addasiadau mewn cartrefi wedi mynd rhagddynt o hyd), ôl-groniad o geisiadau, costau cynyddol a materion ynghylch argaeledd deunyddiau adeiladu (gyda'r costau cyffredinol yn codi mor uchel â 25% o'u cymharu â'r cyfnod cyn y pandemig) a cholli contractwyr.

Yn olaf, edrychodd y Rheolwr Gweithredol, Adfywio ar heriau posibl wrth symud ymlaen h.y. o ran newidiadau mewn deddfwriaeth, y posibilrwydd o ddileu profion modd a datblygu fframwaith addasiadau strategol (yn ymwneud â gweithio amlasiantaethol a darparu gwasanaeth teg a chyfartal).

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, holodd y Pwyllgor gwestiynau a gwneud sylwadau:

- Gofynnodd y Cynghorwyr Parker a Nugent-Finn sut y gellid rhoi gwybod i bobl (gan gynnwys yr henoed a grwpiau agored i niwed) am y GCA (h.y. ei wneud yn gyhoeddus) er mwyn iddynt gael gafael ar y grant a'r gwasanaethau, gan gynnwys cleifion mewn ysbytai. Esboniwyd bod y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau ar gyfer GCA yn cael eu gwneud drwy Therapyddion Galwedigaethol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Weithiau byddai'r ffaith bod arian ar gyfer Gofal a Thrwsio yn rhedeg allan ac ati yn effeithio ar y broses o hysbysebu gwasanaethau o'r fath, (oni bai y gellid dod o hyd i arian ychwanegol h.y. drwy'r Grant Galluogi). Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladau hefyd ei bod yn arferol rhoi i gleifion yn yr ysbyty gynllun rhyddhau yn ôl yr angen a fyddai'n cynnwys atgyfeiriadau gan Therapyddion Galwedigaethol a chan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar unrhyw addasiadau sydd eu hangen. Wrth symud ymlaen, roedd y Cyngor yn edrych ar fodel 'Cynghrair y Fro', partneriaeth ffurfiol gyda'r Cyngor, Bwrdd Iechyd Caerdydd

- a'r Fro ac eraill i gynnig 'siop un stop' i drigolion a allai fod â phroblemau iechyd a gofal cymdeithasol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy ar yr un pryd.
- Gofynnodd y Cynghorydd Parker hefyd am y profion modd ar gyfer y GCA a chadarnhawyd na chynhelir profion modd ar gyfer addasiadau ar raddfa fach (gan gynnwys grisiau), dim ond ar gyfer addasiadau canolig a mwy o faint.

Roedd y Pwyllgor am ddiolch i dîm y GCA am ei holl ymdrechion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD – NODI'R cyflwyniad ar yr Addasiadau o ran y Cyfleusterau i'r Anabl.

Rheswm dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

684 ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

Rhoddodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu wybod i'r Pwyllgor am gamgymeriad bach o ran dyddiad y Pwyllgor ar ddalen gyfeirio flaen yr adroddiad, a oedd yn dweud 8 Rhagfyr yn lle 16 Rhagfyr.

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 22 Tachwedd 2021, fel y nodwyd yn yr agenda, i'r Pwyllgor i'w ystyried. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau fod gan y Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith ar gyfer plant ac oedolion y mae angen gwasanaethau penodol y Cyngor arnynt a bod yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am effeithiolrwydd y trefniadau a'r datblygiadau hynny dros y cyfnod diwethaf. Ychwanegodd fod pob rhan o'r Cyngor yn ymrwmo i ddiogelu a chymryd rhan mewn diogelu a bod diogelu'n rhan o nifer o feysydd portffolio a Phwyllgorau a bod gofyniad statudol i ddiogelu'n gorfforaethol yn rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn benodol dan Ran 7 o'r Ddeddf.

Roedd gwaith y Grŵp Diogelu Corfforaethol (GDC) yn canolbwyntio ar y trosolwg strategol o ddiogelu ar draws y Cyngor ac wedi cyfarfod yn rheolaidd ers mis Ebrill 2021. Mae nifer o flaenoriaethau wedi'u hystyried. Roedd arfer da yn cael ei rannu'n fewnol o waith yn y Fro, ond hefyd yn rhanbarthol o ran gwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

At hynny, cysylltwyd â chynrychiolydd newydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a rannodd gyda'r GDC feysydd lle gallent gefnogi Cynghorau o ran prosesau gwahardd ac atgyfeirio'r GDG. Rhoddwyd data recriwtio diogelach i'r grŵp yn rheolaidd hefyd ac ar y cyfan glynydd wrth arferion recriwtio diogelach yn effeithiol ac roedd Cynllun Gwaith Diogelu Corfforaethol ar waith i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth a meysydd dysgu o adolygiadau. Roedd y GDC yn ymwneud â datblygu / adolygu data diogelu a hyfforddiant diogelu (gan sicrhau mwy o ffocws ac

yn seiliedig ar ganlyniadau), yn ogystal â bwrw ymlaen â datblygiadau mewn ymateb i archwilio ac ystyried gweithgarwch sicrhau ansawdd ehangach a all gefnogi gwaith y GDC.

Byddai adroddiad blwyddyn lawn, yn rhoi mwy o fanylion, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cododd y Cynghorydd Nugent-Finn fater o ran Aelodau Etholedig Cyngor Bro Morgannwg nad oeddent yn cael gwiriadau gan y GDG yn rhan o'u rôl, yn wahanol i'r gweithwyr perthnasol o fewn y Cyngor ac oni bai eu bod yn dewis eu cael yn unigol. Cyfarfu'r Aelodau Etholedig â theuluoedd a phlant mewn cymorthfeydd. Teimlai'r Cynghorydd y dylid cyflwyno'r mater hwn i'r Cabinet fel argymhelliad yn rhan o arfer da. Ychwanegodd y Cynghorydd Parker fod llawer o Aelodau Etholedig, mae'n debyg, yn llywodraethwyr ysgol hefyd ac, yn ei brofiad ef, ni ofynnwyd iddynt gael gwiriadau gan y GDG er y gallai llywodraethwyr symud o amgylch ysgol gyda'u bathodyn llywodraethwr yn unig. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladau fod gwiriadau gan y GDG wedi'u cyfyngu gan ddeddfwriaeth a'r fframwaith statudol ac y byddent ond yn berthnasol i Aelodau sy'n ymwneud yn weithredol ag unigolion, oedolion neu blant yn eu cartrefi eu hunain neu er enghraifft, mewn cartref plant neu gynllun tai gwarchod. Byddai'n rhaid diffinio hyn yn weithgarwch a reoleiddir (fel gweithio'n unigol gyda phlant, ac ati). Byddai'n gofyn am eglurhad pellach ar y materion a godwyd gyda'r swyddog arweiniol yn y maes hwn a chyda'r Gwasanaethau Democrataidd ac yn rhannu gyda'r Aelodau y sail statudol ar gyfer cael gwiriadau gan y GDG er mwyn helpu i ddatblygu'r maes pryder hwn i'r Pwyllgor.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI Adroddiad Canol Tymor Diogelu Corfforaethol.
- (2) Y Cabinet i ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer Aelodau Etholedig yng Nghyngor Mro Morgannwg ac i ofyn am eglurhad ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i bob Aelod Etholedig gynnal gwiriadau o'r fath fel rhan o'u rôl.

Rheswm dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau a wnaed ynghylch gwiriadau DBS ar gyfer Aelodau Etholedig gan y Pwyllgor Craffu.

685 CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG
DRAFFT 2022-23 (CYF) –

Rhoddodd y Swyddog Gwasanaethau Democraataidd a Chraffu wybod i'r Pwyllgor am gamgymeriad bach o ran dyddiad y Pwyllgor ar ddalen gyfeirio flaen yr adroddiad, a oedd yn dweud 8 Rhagfyr yn lle 16 Rhagfyr.

Cafodd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 22 Tachwedd 2021, fel y'i nodwyd yn yr agenda, ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau yn rhan o'r rhaglen ymgynghori, gan ofyn am unrhyw sylwadau i'w rhannu â'r Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes i lywio diwygiadau i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB). Nodwyd yr amserlen ar gyfer ymgynghori ar y CCB a'i gymeradwyo yng nghorff yr adroddiad

Roedd y CCB ar gyfer 2022-23 yn cyd-fynd â phedwar Amcan Llesiant y Cyngor. Nododd y Cynllun y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yn 2022-23 i gyflawni'r amcanion hynny. Byddai'r ymrwymadau yn y CCB yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ynghyd â thargedau gwella gwasanaethau a fyddai'n manylu ar sut y byddai gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at gyflawni at y gwaith o gyflawni'r pedwar Amcan Llesiant.

Byddai'r amcanion a'r ymrwymadau cysylltiedig yn y Cynllun hefyd yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Gwasanaeth i ddangos sut y byddai'r gwahanol wasanaethau'n cyfrannu at y canlyniadau hynny yn y CCB. Rhagwelwyd y byddai Cynlluniau Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i Graffu yn y Flwyddyn Newydd, ynghyd â'r targedau gwella gwasanaethau arfaethedig ar gyfer 2022/23 hefyd.

Darparodd y CCB bont rhwng y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd a'r Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol a nododd yn glir y camau y gallai pobl ddisgwyl i'r Cyngor eu cymryd yn y flwyddyn i ddod a sut y byddai'r Amcanion Llesiant yn cael eu cyflawni.

Yn y CCB eleni, roedd pwyslais arbennig ar gyfres o chwe thema drawsbynciol, gan gynnwys Prosiect Sero, Capasiti Cymunedol, Caledi, Gofal a Chymorth, Trawsnewid a Seilwaith.

Tynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai a Adeiladau sylw'r Aelodau at nifer o feysydd sy'n berthnasol i'r Pwyllgor h.y. Amcan 3, cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned, a oedd yn faes ffocws a diddordeb allweddol i'r Aelodau a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y Strategaeth Bro Ddiogelach a Diogelwch Cymunedol newydd ar gyfer 2023/26, y gwaith o adeiladu cymaint o dai Cyngor â phosibl (fel Cam 2 Holm View), y 100 o gartrefi cyngor newydd yn 2022 a'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Dai Leol pum mlynedd newydd y flwyddyn nesaf. Hefyd, o ran meysydd ac amcanion eraill, amlygwyd y gwaith a'r cynnydd a wnaed gyda'r 'Pod Bwyd' ym Mhenarth a'r effaith gadarnhaol a gafodd ar y cymunedau yno.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd y Cyngorydd Hanks am yr anawsterau wrth recriwtio Swyddogion Ailgartrefu Cyflym (SAC) ac am y wybodaeth ddiweddaraf am brinder staff. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau, er gwaethaf arian ychwanegol, ei bod yn anodd recriwtio pobl â'r arbenigedd cywir ar

gyfer rolau o'r fath a bod y Cyngor yn gweithio gydag asiantaethau recriwtio lleol i helpu i recriwtio lle bo angen. Dymunodd y Rheolwr Gweithredol dros Dai'r Sector Cyhoeddus ychwanegu bod swyddi SAC yn cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai (GCT) a bod un wedi'i llenwi, ond roedd recriwtio'n dal i fod yn heriol oherwydd bod y Cyngor yn cystadlu ag Awdurdodau eraill am nifer fach o bobl â'r sgiliau angenrheidiol ac oherwydd heriau sy'n gysylltiedig â chwyddiant cyflogau, ac ati, hefyd.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD – NODI'R Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft.

Rheswm dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod

686 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 2021/22 (CAT) –

Nododd yr adroddiad perfformiad a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau gynnydd y Cyngor yn Chwarter 2 (1 Ebrill i 30 Medi, 2021) tuag at gyflawni ymrwymadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) (2021/22) fel sy'n cydfynd â'r Amcanion Llesiant yn ei Gynllun Corfforaethol.

Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ei ymrwymadau yn ystod y flwyddyn o ran y CCB (2021/22). Roedd y perfformiad hwn wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn Chwarter 2 (Ch2).

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o bedwar Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn Ch2 i gyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau parhaus sy'n deillio o'r pandemig.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 95% (296 allan o 313) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a nodwyd yn CCB y Cyngor sy'n cyfleu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter. Priodolwyd statws Melyn i 2% (6) a statws Coch i 3% (12) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd.

O'r 12 o gamau gweithredu y priodolwyd statws perfformiad Coch iddynt yn ystod y chwarter, roedd 25% (3) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ailflaenoriaethu gwasanaethau a gynhaliwyd mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus. O ran y meysydd hyn, roedd gwaith bellach yn ailddechrau, lle y bo'n briodol, yn rhan o gynlluniau a strategaeth adfer y Cyngor. Roedd y cyflwyniad a oedd yn cydfynd â'r adroddiad ar berfformiad yn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd o ran adfer ar ôl y Coronafeirws yn y Pwyllgor Craffu ac roedd yn canolbwyntio ar dynnu sylw at faterion a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y diweddariad ar adfer ar ôl y Coronafeirws bellach yn rhan o adroddiadau perfformiad chwarterol er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar

waith eu Pwyllgorau perthnasol. O'r safbwynt hwn, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran adfer ar ôl y Coronafeirws.

O'r 42 o fesurau perfformiad chwarterol sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd am ddata 36 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd Statws perfformiad Gwyrdd i 61% (22), statws Melyn i 6% (2), a statws Coch i 33% (12). Nid oedd data ar gael ar gyfer 6 mesur chwarterol oherwydd mesurau ailflaenoriaethu a gynhaliwyd mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 107 o fesurau gan gynnwys nifer o ddangosyddion blynyddol (89) a'r rheiny sy'n sefydlu perfformiad sylfaenol ar gyfer y flwyddyn (18).

O ran y 12 o fesurau y priodolwyd statws Coch iddynt yn ystod y chwarter, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at 58% (7) yn methu'r targed;

O ran y gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 100% (37 allan o 37). O'r 7 mesur chwarterol a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 57% (4), statws Melyn i 14% (1), a statws Coch i 29% (2). O ran y 2 fesur y priodolwyd statws Coch iddynt, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at fethu'r targed ar gyfer 1 o'r mesurau.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at Atodiad C yr adroddiad, a edrychodd ar y ddau fesur perfformiad Coch:

- Nifer y dyddiau gwaith ar gyfartaledd i osod eiddo gwag. Yn anffodus, roedd perfformiad wedi gwaethygu ychydig yn Ch2 oherwydd materion cael deunyddiau ac oherwydd gallu contractwyr ac isgcontractwyr i fod ar gael. Rhagwelwyd y byddai'r Cyngor yn perfformio'n ôl y disgwyl eto yn Ch3 gan fod ar y trywydd iawn ar ddiwedd y flwyddyn o ran y dangosydd pwysig hwnnw.
- Canran yr aelwydydd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref Dylid nodi y cafodd y targedau eu gosod cyn y pandemig a bod yr angen i letya pobl ddigartref ni waeth eu hangen â blaenoriaeth wedi effeithio ar weithgareddau atal. Gyda LIC yn ystyried dileu'r meini prawf angen â blaenoriaeth, byddai angen i'r Cyngor gael trafodaethau gyda LIC ynghylch adnoddau a'r ffordd y byddai'r Cyngor yn ymdrin yn y dyfodol ag atal digartrefedd a chynorthwyo trigolion y Fro i gael llety.
- Dymunodd y Rheolwr Gweithredol dros Dai'r Sector Cyhoeddus ychwanegu, o ran y mesur perfformiad ar gyfer colli rhent / ailosod (oherwydd eiddo gwag cymhleth, ac ati), fod hyn wedi dechrau gwella yn Ch3 ac y rhagwelwyd y byddai'n parhau i wella yn Ch4.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Aviet at sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch ffoaduriaid yn cael triniaeth ffafriol dros gyn-filwyr / cyn-weithwyr y lluoedd arfog yn achos tai a gofynnodd a ellid chwalu sibrydion o'r fath. Dwedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau fod mesurau ar waith i gynorthwyo ffoaduriaid a chyn-weithwyr y lluoedd arfog yn deg h.y. Roedd 2 deulu, ffoaduriaid o Afghanistan, wedi cael tai nad oeddent yn eiddo i'r Cyngor a rhoddwyd dyraniad penodol neu flaenoriaeth i gyn-weithwyr y lluoedd arfog ar gyfer tai cymdeithasol yn ogystal â

chymorth wedi'i deilwra yn rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog. Roedd prosesau dyrannu tai eraill hefyd yn cael eu cynnal yn dryloyw ac yn deg fel drwy Homes4U.

Roedd y Pwyllgor am ddiolch i Swyddogion a staff y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau ac yn y Cyngor ehangach am eu holl ymdrechion yn ystod blwyddyn heriol arall.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy Strategaeth Adfer a Chynlluniau Adfer Cyfarwyddiaethau'r Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y coronafeirws.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

687 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL, 2021 I 30 MEDI, 2021 A'R GYLLIDEB DDIWYGIEDIG AR GYFER 2021/22 (CAT) –

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151 fod yr adroddiad yn ymwneud â'r sefyllfa monitro refeniw ar ddiwedd Medi 2021, gyda'r adroddiad yn nodi bod y Cyngor, ar yr adeg hon o'r flwyddyn, yn diwygio'r gyllideb ar gyfer unrhyw addasiadau technegol ac unrhyw drosglwyddiadau. Ni newidiodd y diwygiadau hyn sefyllfa sylfaenol yr alldro ar gyfer y meysydd hynny yng nghylch gwaith y Pwyllgor. Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud y rhagwelir alldro o fewn y gyllideb ar ddiwedd eleni; fodd bynnag, roedd angen i'r Swyddog roi rhybudd am hyn drwy ddweud y gallai fod diffyg yn y gyllideb teledu cylch cyfyng, ac os na allai'r Cyngor dalu am hynny o feysydd eraill sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn, byddai'n rhaid talu amdano gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Byddai 'briff gwyllo' yn cael ei gadw ar y diffyg posibl hwn weddill y flwyddyn.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151 hefyd fod arian wedi'i roi gan LIC er mwyn talu am incwm a gollwyd mewn rhai gwasanaethau'r Cyngor o ganlyniad i bandemig COVID 19. Ymhlith y meysydd lle'r oedd arian o'r fath wedi'i dynnu i lawr roedd y GCA, lle byddai diffyg disgwylidig mewn ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hawlio'r colledion hyn yn ôl gan LIC.

Yn olaf, rhoddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151 wybod i'r Pwyllgor am y Rhaglen Gyfalaf, lle mai'r unig newid i'r Pwyllgor oedd cynnwys Pod Bwyd Penarth.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.
- (2) NODI'R gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

688 CYNIGION CYCHWYNNOL CYLLIDEB REFENIW 2022/23 (CAT) –

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151 nad oedd LIC wedi cyhoeddi setliad dros dro'r Cyngor eto. Fe'i disgwyliwyd eleni ar 21 Rhagfyr 2021 gyda'r setliad terfynol i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022. Er nad oedd y wybodaeth hollbwysig hon wedi dod i law eto, bu'n rhaid i'r broses o bennu'r gyllideb a'r broses ymgynghori ddechrau er mwyn bodloni terfynau amser statudol. Felly, roedd rhaid ystyried sawl senario o ran ariannu posibl gan LIC:

- Setliad ariannol niwtral.
- Gostyngiad 1% bob blwyddyn.
- Cynnydd 1% bob blwyddyn.
- Rhoi lefel y setliad ar gyfer 2022/23 ar ym lefel â setliad 2021/22 (4.42%).

Cyfanswm y pwysau cost ar gyfer y Pwyllgor hwn oedd £2.2m, gan gynnwys darparu llety gwely a brechwast; er bod potensial i LIC ariannu rhywfaint o neilltuo ystafelloedd mewn bloc o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Cadarnhawyd hyn gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladau, ac eglurodd fod y Cyngor wedi bod yn trafod gyda swyddogion LIC heddiw ynghylch arian a neilltuo ystafelloedd gwely a brechwast a llety dros dro mewn bloc i bobl ddigartref ar gyfer y flwyddyn nesaf ac roedd LIC wedi cynnig ei sicrwydd y byddai arian o'r fath ar gael pe bai angen. Fodd bynnag, roedd trafodaethau ar y mater hwn yn parhau gyda LIC ac roedd angen i'r Cyngor ystyried beth fyddai'r union anghenion a gofynion ar gyfer llety o'r fath y flwyddyn nesaf yn y Fro, yn enwedig yng ngoleuni'r nifer cynyddol o ddatblygiadau tai newydd i'w hadeiladu y flwyddyn nesaf a allai helpu i gartrefu pobl sydd mewn llety dros dro neu sy'n ddigartref. Roedd angen i'r Cyngor osgoi cadw ystafelloedd gwely a brechwast a llety dros dro arall, gan y gallai hyn arwain at ystafelloedd heb eu defnyddio.

Yna cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151 at y gwahanol opsiynau / senarios ar gyfer lefel y Dreth Gyngor i'w phennu gan y Cyngor ar gyfer 2022 / 23, a oedd fel a ganlyn:

- Cyfradd ddiweddaraf y mynegai prisiau defnyddwyr (MPD) a gofnodwyd oedd 3.2% (er bod hyn wedi dod o lefel y MPD ym mis Awst a'i fod wedi codi ers hynny);
- Cynnydd o 3.9% sef yr un cynnydd a gafwyd yn y Dreth Gyngor yn 2021/22;
- Neu gynnydd i gyfartaledd Cymru, sef 7.05% yn 2022/23. O ganlyniad, roedd y diffygion posibl o'r lefelau amrywiol o Dreth Gyngor a gynigiwyd yn amrywio o £13.6m i £26m.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau a gwneud y sylwadau canlynol:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Brooks at LIC yn ariannu llety dros dro'n barhaus o bosibl, a allai helpu gyda phwysau cost y Cyngor yn sylweddol. Gofynnodd hefyd am yr adolygiad o Dŷ Tregatwg y cyfeirir ato yn yr adroddiad o dan bwysau cost. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladau fod yr adolygiad yn ymwneud â newid defnydd yr adeilad, gyda rhai gwasanaethau'r Cyngor a'r Trydydd Sector yn symud o'r adeilad ac yn darparu gwasanaethau'n wahanol, a fyddai'n effeithio ar gostau rhedeg yr adeilad a, pe bai'r Cyngor yn datgan nad oes angen yr adeilad, y pwysau costau cysylltiedig oherwydd y cymal 'adfachu' gan LIC fel rhan o'i gytundeb ariannu blaenorol. Roedd opsiynau eraill yn cynnwys prydlesu'r adeilad i sefydliadau eraill naill ai ar sail tymor byr neu ganolig neu hirdymor neu ei droi'n dai. Roedd hefyd yn bwysig pwysleisio, fodd bynnag, nad oedd y newidiadau a'r adolygiad yn ymwneud â Thŷ Tregatwg yn golygu unrhyw ostyngiad mewn gwasanaethau fel caethiwed i gyffuriau ac alcohol, oherwydd bod cymorth o'r fath yn cael ei gydlynu o leoliad amgen. Cytunwyd i gymeradwyo'r adolygiad hwn a'i gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn enghraifft o ddull y gallai'r Cyngor ei ddefnyddio wrth fynd i'r afael â'i bwysau cost drwy edrych 'y tu allan' i'r blwch ac edrych ar ddefnyddiau amgen ar gyfer yr adeilad, ac ati.
- Gofynnodd y Cynghorydd Bird a fyddai'r arian arfaethedig gan LIC ar gyfer llety dros dro yn negyddu ei bwysau cost o £2m yn llawn; eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau na fyddai, gan mai dyma'r gost blwyddyn lawn yn seiliedig ar tua 120 o ystafelloedd mewn tri gwesty. Pe bai'r Cyngor yn amcangyfrif bod nifer yr ystafelloedd sydd eu hangen y flwyddyn nesaf yn llai na hyn, yna cyfran o'r £2m hwnnw fyddai yno o hyd. Fodd bynnag, byddai'r pandemig a nifer y bobl ddigartref yn parhau i effeithio ar union swm yr ystafelloedd sydd eu hangen, felly gallai cyfran y pwysau cost sydd i'w negyddu fod yn gymharol fach o hyd.
- Gofynnodd y Cynghorydd Hanks am y ffordd ymlaen ar gyfer y broblem barhaus gyda phwysau costau a darpariaeth teledu cylch cyfyng yn y Fro a darfodiad a methiant cynyddol y stoc teledu cylch cyfyng presennol, yn ogystal â'r amser hir mae angen aros i Heddlu De Cymru gynorthwyo o ran darparu hyn. Dwedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau fod 77 o gamerâu cylch cyfyng yn y Fro ac oherwydd oedran y stoc teledu cylch cyfyng nad oedd rhai o'r camerâu yn gweithio mwyach. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi ymrwymo £350k i adnewyddu'r stoc teledu cylch cyfyng ac nid oedd bwriad ganddo i leihau eu niferoedd. Ar hyn o bryd, roedd y Cyngor yn ariannu yr holl gostau refeniw ar gyfer teledu cylch cyfyng, ond gydag asiantaethau eraill hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth hwn. Roedd y Cyngor

am i'r partneriaid hyn gynorthwyo gyda chostau teledu cylch cyfyng, gyda swyddogion o swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHT) Heddlu De Cymru yn nodi y byddent yn helpu gyda thalu costau refeniw ar gyfer teledu cylch cyfyng (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan Fwrdd Gweithredol y CHT). Ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i ddatblygu dull rhanbarthol o fonitro teledu cylch cyfyng ar y cyd ag Uned Reoli Sylfaenol (URS) yr Heddlu ar gyfer Caerdydd a'r Fro. Yn y cyfamser, roedd y system teledu cylch cyfyng bresennol yn parhau i gael ei monitro gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr a'i chynnal gan y contractwr teledu cylch cyfyng.

- Gofynnodd y Cynghorydd Perkes am y ffaith nad yw'r gwasanaeth Cydlynedd Asesu ac Atgyfeirio Cam-drin Domestig (CAACD) wedi'i gynnwys yn y pwysau costau yn yr adroddiad, dwedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau fod y pwysau cost ar gyfer y gwasanaeth wedi'i leddfu gan gyfuniad o arian drwy gyllideb sylfaenol y Cyngor, y Grant Cymorth Tai a'r ffaith bod y Cyngor yn llwyddo i ddenu mwy o grantiau LIC ar gyfer CAACD, gan ei fod wedi symud o fod yn brosiect peilot i fod yn brosiect 'prif ffrwd'. Roedd arian o'r fath wedi golygu ehangu swyddogaethau presennol y gwasanaeth, yn ogystal â recriwtio eiriolwr dros blant a oedd wedi gweld trais domestig gartref ac a oedd wedi arwain at sicrhau ailgomisiynu'r Gwasanaeth Cam-drin Domestig drwy Atal Y Fro, a oedd wedi ymrwymo i gontract hirdymor i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn am leoliad y Gwasanaeth Allgymorth Cyffuriau ac Alcohol newydd a dwedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau y byddai'n siarad â'r swyddog arweiniol perthnasol er mwyn darparu rhestr o'r gwasanaethau a'r lleoliadau allgymorth cyfredol.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'R Cynigion Cyllideb Refeniw Cychwynnol ar gyfer 2022/23.
- (2) Diweddarau'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ynghylch pwysigrwydd parhaus ariannu'r pwysau cost fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad gan gynnwys darparu llety gwely a brecwast (yn amodol ar eglurhad o'r union bwysau cost ar gyfer llety gwely a brecwast o ganlyniad i drafodaethau pellach ar gyllid grant parhaus gan Lywodraeth Cymru).
- (3) Y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol i ystyried cymeradwyaeth Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i adolygiad y Cyngor o Dŷ Tregatwg a'r defnydd amgen posibl ar gyfer yr adeilad fel rhan o'r gwaith o edrych ar bwysau cost.

Rheswm dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod
- (2) Er mwyn cynnal cyllid ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir yn Atodiad 1.

(3) Cymeradwyo adolygiad y Cyngor o ffyrdd a defnyddiau amgen o'r adeilad a'u heffaith ar bwysau costau.

689 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF CYCHWYNNOL 2022/23 I 2026/27 (CAT) –

Cyflwynodd yr adroddiad Gynigion Cychwynnol y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i 2026/27 i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer ymgynghori.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151, fel gyda'r adroddiad refeniw blaenorol yn gynharach, nad oedd gan y Cyngor unrhyw arwydd hyd yma beth fyddai'r setliad ariannol terfynol gan LIC ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn yr adroddiad amlinellwyd nifer o gynlluniau cyfalaf, ac roedd cyllideb flynyddol eisoes wedi'i chynnwys ar gyfer rhai cynlluniau fel y GCA a'r Rhaglen Gwella Tai a oedd yn cydfynd â'r Cynllun Busnes Tai presennol.

Yn ogystal, derbyniwyd un cais mewn perthynas â chylch gwaith y Pwyllgor hwn ynghylch y rhaglen 'Strydoedd Diogelach'. Ar hyn o bryd, oherwydd yr ansicrwydd gyda lefel yr arian, nid oedd unrhyw geisiadau gwirioneddol wedi'u cymeradwyo i'w datblygu ar hyn o bryd.

Byddai'r cynigion cyfalaf terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror ac yn cael eu cymeradwyo'n derfynol ym mis Mawrth 2022 gan y Cyngor Llawn.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD – NODI'R Cynigion Rhaglen Gyfalaf Cychwynnol ar gyfer 2022/23 i 2026/27.

Rheswm dros yr argymhellion

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod

690 CYNIGION CYLLIDEB CYCHWYNNOL CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2022/23 A CHYLLIDEB DDIWYGIEDIG 2021/22 (CAT) –

Amlinellodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151 yr adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb ddiwygiedig y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2021/22. Bu newid sylweddol i'r gyllideb weithredol net ar gyfer 2021/22, o warged o £25k i ddiffyg o £11.085m. Fodd bynnag, ni ddylai'r newid hwn achosi braw, gan ei fod oherwydd bod cronfa wrth gefn y CRT ar ddiwedd 2021 yn llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd oherwydd tanwariant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac felly roedd angen yr 'addasiad' ariannol hwn er mwyn gostwng lefel y gronfa wrth gefn yn unol â'r Cynllun Busnes Tai (CBT). Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy gynyddu'r cyfraniadau refeniw i ariannu gwariant cyfalaf. Byddai hyn yn cynyddu gwariant a byddai'n cael ei ariannu drwy dynnu i lawr o'r gronfa wrth gefn, gan ddod â'r gronfa wrth gefn yn ôl i'r lefel yr oedd y Cyngor wedi cynllunio iddi fod. Byddai hyn yn ei dro yn golygu na fyddai angen i'r Cyngor godi cymaint o arian drwy

fenthyciadau i ariannu gwariant cyfalaf, a fyddai o fudd i'r sefyllfa ariannol gyffredinol i'r Cyngor drwy leihau taliadau benthyciadau.

Roedd newid arall a amlinellwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â Darpariaeth Dyledion Drwg, yr oedd y Cyngor yn ei lleihau gan nad oedd angen cynnydd mor fawr ar gyfer y ddarpariaeth hon erbyn hyn.

Nododd yr adroddiad hefyd y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23 y Cyfrif Refeniw Tai. Dwedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151 nad oedd lefel y cynnydd mewn rhent wedi'i nodi eto gan nad oedd y polisi rhent wedi dod i law gan LIC hyd yma. Roedd y Cyngor yn edrych ar y twf net sydd ei angen ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf. Y maes twf mwyaf oedd cynnydd mewn costau benthycia. Felly, er bod y Cyngor yn lleihau costau o'r fath, roedd angen o hyd oherwydd cynnydd mewn gwariant ar raglen gyfalaf y flwyddyn nesaf.

Dwedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog A151 y byddai fersiwn derfynol yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror 2022 ac y byddai'r CBT yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar yr un pryd ac y byddai'r ddau ohonynt yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y cyflwyniad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'R gyllideb Cyfrif Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- (2) NODI'R cynnig cyllideb Cyfrif Refeniw Tai cychwynnol ar gyfer 2022/23.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.